**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH** |
| **SUBJECT:** | **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 1 MEDI 2021 DYDD MERCHER, 1 MEDI 2021** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Richard Crook (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Rheolwr Gyfarwyddwr<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg<br>Pennaeth Datblygu Sefydliadol | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG</u>** | |
| **No. 4** | **<u>CYNNIG I YMGYNGHORI AR GYNNYDD MEWN CAPASITI YN YSGOL ARBENNIG PEN Y CWM</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant fod yr adroddiad yn rhoi deilliannau cyfnod hysbysiad statudol/gwrthwynebu yng nghyswllt y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi manylion y camau nesaf o'r prosesau statudol sydd ei angen yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a'r prosesau gwneud penderfyniadau cysylltiedig. Siaradodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o ganlyniadau'r cyfnod hysbysu statudol a'r broses ymgynghori.<br><br>Croesawodd yr Aelod Gweithredol yr adroddiad a fydd yn fuddiol i blant a phobl ifanc Blaenau Gwent sy'n mynychu Ysgol Arbennig Pen y Cwm.<br><br>Cefnogodd y Pwyllgor Gweithredol yr adroddiad a theimlid fod Ysgol Arbennig Pen y Cwm yn gyfleuster sydd ei fawr angen sydd o fudd i Flaenau Gwent a chymunedau ehangach yn ogystal â sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael mynediad i gyfleuster mor ardderchog ym Mlaenau Gwent.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ar y dogfennau cysylltiedig i symud ymlaen i gam Hysbysiad Penderfyniad (sydd ei angen o fewn 7 diwrnod o wneud y penderfyniad, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018, fersiwn 2). (Opsiwn 1) | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</u>** | |
| **No. 5** | **<u>CAIS AM DDIWRNOD GWYLIAU BLYNYDDOL YCHWANEGOL AR GYFER Y GWEITHLU</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid fod yr adroddiad yn ceisio cytundeb y Pwyllgor Gweithredol i wneud cais a wnaed gan y Cyd Undebau Llafur (Unsain, GMB ac Unite) i roi diwrnod ychwanegol o wyliau ar gyfer y gweithlu (heblaw'r staff a gyflogir gan ysgolion), ar sail unwaith yn unig, ar gyfer 31 Rhagfyr 2021. Ychwanegodd y Prif Swyddog y Cyd Undebau Llafur wedi codi'r cynnig yn y cyfarfod ymgynghori gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a'r Pwyllgor Gweithredol ar 28 Gorffennaf 2021. Teimlai'r Cyd Undebau Llafur y byddai diwrnod ychwanegol o wyliau yn cydnabod gwaith ardderchog staff mewn ymateb i bandemig Covid 19.<br><br>Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad ac ategodd fod y Cyd Undebau Llafur wedi cyflwyno'r cais hwn i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol yn ffordd briodol i'r Cyngor gydnabod y gwaith rhagorol a wnaethpwyd yn ystod y pandemig.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithredol yn cefnogi cais yr Undebau Llafur ac yn rhoi 31 Rhagfyr 2021 (eleni yn unig) fel diwrnod o wyliau ychwanegol ar gyfer y gweithlu (heblaw'r staff hynny a gyflogir gan ysgolion). (Opsiwn 10. | |